# CYNGOR CAERDYDD

## POLISI NAWDD

**Diffiniadau:**
Diben y diffiniadau canlynol yw osgoi dryswch rhwng marchnata mewn partneriaeth a nawdd ariannol.

**Marchnata mewn partneriaeth**
Marchnata mewn partneriaeth yw datblygu a chyfleu negeseuon y Cyngor drwy bartneriaethau â sefydliadau'r sector preifat a chyhoeddus, gan ddefnyddio un neu fwy o elfennau o amryw sianelau cyfathrebu marchnata'r partner. Nid yw marchnata mewn partneriaeth fel arfer yn cynnwys talu unrhyw ffi i'r partner – gweithgarwch lle rhoddir cymorth drwy ffyrdd eraill ydyw yn gyffredinol.

**Nawdd**
Yn gyffredinol nawdd yw talu ffioedd am yr hawl i gael eich cysylltu â gweithgaredd. Gall adrannau'r cyngor ddefnyddio nawdd mewn dwy ffordd:

**Rhoi nawdd ariannol**
Gall un o adrannau'r Cyngor dalu ffi am yr hawliau i gael eu cysylltu'n gyhoeddus â gweithgaredd, eitem, person neu eiddo, yn gyfnewid am fuddion. Mae nifer o fathau gwahanol o nawdd yn y categori hwn:

- noddi digwyddiad;
- nawdd yn y cyfryngau (rhaglennu teledu/radio, sinema, cynnwys digidol neu'r wasg).

**Ceisio nawdd**
Fel arall, gall un o adrannau'r Cyngor weithredu fel deiliad hawliau, gan geisio cymorth ariannol allanol neu wasanaethau yn lle talu, yn gyfnewid am rai buddion ar gyfer gweithgaredd, digwyddiad neu ymgyrch a grëwyd gan yr adran.

**Gallwch ddarllen rhagor o ddisgrifiadau o ddisgyblaethau noddi (gan gynnwys noddi darlledu a digwyddiadau) yn yr adran 'Telerau Pwysig' yn Atodiad A.**

**Gweler hefyd y Rhestr Wirio Nawdd/Marchnata mewn Partneriaeth sy'n nodi'r ffactorau wrth benderfynu p'un ai nawdd/marchnata mewn partneriaeth yw'r ffordd orau o gyflawni nodau'r Cyngor. Maent wedi'u grwpio â'i gilydd i adlewyrchu'r camau yn y broses nawdd/marchnata mewn partneriaeth.**

Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi diffiniad y Cyngor o "nawdd" a'r telerau lle gall y Cyngor geisio a derbyn nawdd.

## 1. Diben y Polisi

**1.1** Gall y Cyngor lunio cytundeb nawdd er mwyn gwella, amrywio neu leihau cost gweithgareddau cyfredol. Gall hyn gynnwys naill ai'r Cyngor yn dyfarnu nawdd i drydydd parti ar ffurf budd o ryw fath, neu'r Cyngor yn cael nawdd ar ffurf budd o ryw fath gan drydydd parti. Y bwriad yn y ddau achos yw ategu gweithgareddau'r Cyngor.

**1.2** Wrth roi nawdd, rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried y darpariaethau o ran rhoi cymorth ariannol a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

**1.3** Gall nawdd fod yn fanteisiol i bob parti, ond rhaid i'r Cyngor sicrhau nad yw unrhyw gytundeb nawdd yn peryglu hygrededd gweithrediadau'r Cyngor nac yn rhoi rheswm i amau'r hygrededd hwnnw.

## 2. Amcanion a Chwmpas y Polisi

**2.1** Mae Polisi Nawdd Cyngor Caerdydd yn amlinellu egwyddorion a gweithdrefnau o ran derbyn a rhoi cynigion nawdd. Mae'r Polisi yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

(a) asesu risg a rheoli gwrthdaro buddiannau posibl
(b) Atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder y broses gwneud penderfyniadau
(c) rheoli ariannol a buddion

## 3. Beth yw Nawdd?

**3.1** Gellir diffinio "nawdd" fel perthynas fusnes sy'n rhoi budd i'r ddwy ochr, sy'n cynnwys trosglwyddo arian, adnoddau neu wasanaethau o'r noddwr i'r sawl sy'n cael ei noddi yn gyfnewid am gysylltiad â rhywbeth a hawliau penodol sydd o foddhad i'r ddwy ochr. Nid yw nawdd gyfystyr â gweithgarwch haelionus, a bydd noddwr yn disgwyl cael budd yn ôl y tu hwnt i gydnabyddiaeth gyffredin.

**3.2** Mae rhoi nawdd yn weithgaredd busnes sylweddol, ac mae cwmnïau'n chwilio am gyfleoedd i noddi ar gyfer amryw o resymau busnes cyfreithlon gan gynnwys:

- gwella delwedd a phroffil cyhoeddus y cwmni;
- gwella cydberthnasau cyhoeddus/cymunedol ac ennyn ewyllys da;
- dangos creadigrwydd ac ysbryd o wasanaethu'r cyhoedd;
- denu sylw cyhoeddus a sylw yn y wasg i'r cwmni;
- dangos bod y cwmni'n wahanol i'w gystadleuwyr;
- cynyddu elw/cyfran o'r farchnad.

**3.3** Gall cysylltu enw cwmni ag un o ddigwyddiadau neu weithgareddau'r Cyngor fod yn arbennig o ddeniadol o ran cyfleoedd i sicrhau sylw yn y wasg a dangos ysbryd o wasanaethu'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, gallai ysgogiadau'r noddwr neu'r buddion iddo fod yn llai amlwg. Rhaid bob amser gwneud ymdrech ofalus i ddeall beth allai noddwr ei ennill o'r trefniant.

**3.4** Mae'r Cyngor yn annog cynnwys y sector preifat a'r sector gwirfoddol wrth noddi gweithgareddau'r Cyngor lle y bo'n briodol. Gall nawdd helpu i fanteisio ar botensial masnachol asedau annirnadwy'r Cyngor, gan alluogi adnoddau i gael eu defnyddio'n fwy cynhyrchiol ac, o bosibl, lleihau costau ein gweithgareddau i'r trethdalwyr.

**3.5** Ni ddylid cymysgu nawdd â hysbysebu, a ddiffinnir fel unrhyw ffurf ar gyflwyno a hyrwyddo syniadau, nwyddau neu wasanaethau amhersonol drwy dalu gan sefydliad a enwir.

## 4. Egwyddorion

**4.1** Bydd yr holl gytundebau nawdd ar ffurf cytundeb ysgrifenedig ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn.

**4.2** Rhaid i'r Cyngor ystyried p'un a fydd rhoi nawdd yn golygu bod angen ystyried deddfwriaeth berthnasol, gan y gallai gael ei ystyried yn 'gymorth ariannol'.

**4.3** Rhaid i gytundebau nawdd gynnwys datganiad y bydd swyddogaethau'r Cyngor yn dal i gael eu cyflawni'n llawn ac yn ddiduedd, boed trefniant nawdd ai peidio.

**4.4** Ni ddylai fod gwrthdaro gwirioneddol nac ymddangosiadol rhwng amcanion a chenhadaeth y Cyngor a'r noddwr.

**4.5** Bydd y cytundeb yn cynnwys datganiad yn nodi y bydd unrhyw ddylanwad a geisir dros swyddogaethau rheoleiddiol y Cyngor yn arwain at adolygu a/neu derfynu'r cytundeb nawdd yn awtomatig.

**4.6** Bydd unrhyw ystyriaeth a roddir i sefydlu cytundebau nawdd yn ystyried yr egwyddorion canlynol:

(a) nid oes canfyddiad y bydd yn dylanwadu ar weithrediad y Cyngor nac yn amharu arno;
(b) nid yw'n gosod nac yn awgrymu amodau a fyddai'n cyfyngu, neu'n cyfyngu'n ymddangosiadol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau'n llawn neu'n ddiduedd;
(c) ni niweidir enw da na hygrededd y Cyngor drwy wneud cytundebau â thrydydd partïon anaddas;
(d) mae math y nawdd yn gyson ag amcanion y Cyngor a nodwyd sy'n cynnwys delwedd y Cyngor;
(e) gellir terfynu cytundebau oni chyflawnir amodau'r polisi hwn;
(f) caiff cytundebau eu ffurfio o ran atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder gyda datganiadau clir o ran amcanion a'r buddion a gyflawnir.

**4.7** Rhaid i noddwyr gydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") a phan ddaw darpariaethau'r Mesur i rym i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu Nwyddau a/neu Wasanaethau wrth gyflawni rhwymedigaethau'r Noddwr dan unrhyw gontract yr ymrwymir iddo.

## 5. Asesu Risg

**5.1** Rhaid cynnal asesiad risg o bob cynnig nawdd. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol:

(a) sicrhau nad yw buddion y nawdd i drydydd parti yn fwy lefel y nawdd;
(b) sicrhau bod math neu ffurf y nawdd yn gyson ag amcanion ac anghenion y Cyngor (e.e. derbyn cynhyrchion am ddim, dim ond am eu bod am ddim er nad ydynt o unrhyw werth dirnadwy i'r Cyngor);
(c) sicrhau nad yw unrhyw gynnig nawdd yn disgwyl cymeradwyaeth amlwg o'r noddwr neu gynhyrchion y noddwr gan nad yw'r math hwn o gynnig yn dderbyniol i'r Cyngor;
(d) sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau'n deillio o'r nawdd;
(e) nawdd nad yw'n arwain at gyfleoedd eraill;
(f) bod gallu'r Cyngor i ddarparu digon o adnoddau a chyfleusterau i fodloni telerau'r cytundeb arfaethedig.

**5.2** Os daw'r asesiad i'r casgliad fod y risgiau'n annerbyniol o uchel neu fod y gwerth a gaiff y Cyngor o'r cynnig yn fach, dylai'r Cyngor roi'r gorau i ystyried y cynnig ar y cam hwnnw.

**5.3** Ni ddylai'r Cyngor dderbyn nawdd gan bartïon y mae'n eu rheoleiddio neu eu harolygu, neu y mae'n debygol o'u rheoleiddio neu eu harolygu.

**5.4** Caiff pob cynnig nawdd ei asesu o ran y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau, ac yn benodol gellir ei wrthod neu ei derfynu mewn unrhyw achos yn ystod oes y nawdd os bydd y noddwr:

(a) â chais datblygu neu fater cynllunio cyfredol gerbron y Cyngor, neu fod y Cyngor yn ymwybodol o'r posibilrwydd y daw cais neu fater ger ei fron yn y dyfodol agos;

(b) yn destun, neu'n debygol o fod yn destun, rheoleiddio neu arolygu gan y Cyngor a allai osod neu awgrymu amodau; a phan y gallai'r nawdd gyfyngu ar allu'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau'n llawn ac mewn modd diduedd.

**5.5** Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r rhesymau dros dderbyn nawdd fod wedi'u cofnodi'n glir gan y swyddog sy'n ei gymeradwyo. Rhaid i gytuno ar nawdd nodi darpariaethau addas yn glir i ddelio â'r mater, a allai gynnwys terfynu neu ohirio'r cytundeb nawdd nes i'r mater gael ei ddatrys.

**5.6** Disgwylir i unrhyw unigolyn neu sefydliad â chytundeb nawdd â'r Cyngor ddatgelu'r cytundeb os oes cais datblygu neu fater cynllunio cyfredol yn ymwneud â nhw, neu os yw'r unigolyn neu'r sefydliad yn destun rheoleiddio neu arolygu gan y Cyngor.

## 6. Y Cyngor yn Rhoi Nawdd

**6.1** Gall y Cyngor gael ceisiadau i 'noddi' gweithgareddau parti allanol e.e. rhoi arian neu adnoddau i ddigwyddiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mewn gwirionedd mae 'nawdd' yn gais am gymorth ariannol. Rhaid asesu'r ceisiadau hyn yn unol â Pholisi perthnasol y Cyngor.

## 7. Hysbysebu Cyfleoedd i Noddi

**7.1** Derbynnir bod budd y cyhoedd yn cael ei fodloni orau gan y Cyngor yn hysbysebu cyfleoedd nawdd yn eang drwy dendro agored, er cydnabyddir dan rai amgylchiadau y gallai fod yn anymarferol, ac ni ellir gwneud cais am nawdd dan rai amgylchiadau heblaw drwy wahoddiad.

**7.2** Rhaid cyfeirio at Reolau Archebion Sefydlog a Chaffael Contractau'r Cyngor, y gellir eu gweld yn: [http://www.cardiff.gov.uk/objview.asp?Object_ID=3589&](http://www.cardiff.gov.uk/objview.asp?Object_ID=3589&) wrth benderfynu ar lefel yr hysbysebu sydd ei angen yn ôl y cymorth ariannol a/neu fuddion fydd yn deillio o'r cytundeb nawdd, i sicrhau y cyflawnir gwerth gorau gan y Cyngor. **Mae'n hanfodol dilyn y rhain.** Drwy grynodeb, dim ond y canlynol sy'n berthnasol yn ôl gwerth y cytundeb nawdd:

- Hyd at £2,999.99 – un dyfynbris i'w gael yn ysgrifenedig.
- Rhwng £3,000.00 a £9,999.99 – dau ddyfynbris i'w cael yn ysgrifenedig.
- Rhwng £10,000.00 a £99,999.99 – rhaid gwahodd o leiaf dri thendr ysgrifenedig.
- Rhwng £100,000.00 a Throthwy Gwasanaethau'r UE (sef £173,934.00 ar hyn o bryd) – rhaid gwahodd o leiaf pedwar tendr ysgrifenedig.
- Dros £173,934.00 – Cyfarwyddeb Ewropeaidd yn gymwys a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 sy'n eu gweithredu yn y Deyrnas Unedig, gyda thendrau i'w gwahodd yn unol â'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006.

**7.3** Os yw gwerth y cytundeb nawdd yn is na Throthwy Gwasanaethau'r UE, yna dan amgylchiadau eithriadol gall y Prif Swyddog (neu swyddog ar lefel uwch) sy'n gyfrifol am gaffael benderfynu y gellir gofyn am lai o ddyfynbrisiau neu dendrau (gan gynnwys un tendr), os bydd y Rheolwr Caffael yn cytuno i hynny.

Rhaid cofnodi unrhyw benderfyniad i dderbyn llai o ddyfynbrisiau neu dendrau yn ysgrifenedig, a rhaid dangos bod penderfyniad o'r fath er budd gorau'r Cyngor, ei fod yn werth gorau am arian, a rhaid iddo nodi sut y cydymffurfir â'r materion a nodir yn Rheol 3.2 Rheolau Archebion Sefydlog a Chaffael Contractau'r Cyngor. Rhaid i'r gyfryw wybodaeth gael ei nodi ar ffurflen ragnodedig y Cyngor (h.y. yr Adroddiad Cyn Tendro).

**7.4** Pan fydd gwasanaeth am roi cytundeb nawdd ar waith, a bod angen iddo gyflawni dadansoddiad o'r farchnad i nodi sefydliadau addas i'w gwahodd i gyflwyno dyfynbris a thendr yn unol ag adran 7.2, gall staff Comisiynu a Chaffael gynorthwyo â'r broses hon, gan sicrhau bod y sefydliad llwyddiannus wedi'i roi ar Gyfeirlyfr Cyflenwyr Alito'r Cyngor a system prynu a thalu gorfforaethol y Cyngor (SAP).

Os bydd gwasanaeth am gynnal ymgyrch noddi a bod angen iddo gyflawni dadansoddiad o'r farchnad i nodi sefydliadau addas i'w gwahodd i gyflwyno dyfynbris/tendr, gall staff Comisiynu a Chaffael gynorthwyo â'r broses hon. Un o

ofynion unrhyw gytundeb nawdd yw bod y sefydliad llwyddiannus yn cael ei roi yng Nghyfeirlyfr Cyflenwyr Alito'r Cyngor a system brynu a chaffael gorfforaethol y Cyngor (SAP).

## 8. Gweithgareddau sy'n Anaddas ar gyfer Nawdd

**8.1** Heb gyfyngu o gwbl ar allu'r Cyngor i arfer ei ddisgresiwn, nid yw'r Cyngor yn ystyried y cwmnïau, partneriaethau, sefydliadau nac unigolion canlynol fel rhai addas i lunio cytundeb noddi â hwy:

(a) Y rheini sy'n gweithgynhyrchu, yn dosbarthu neu'n gwerthu cynhyrchion tybaco, pornograffi a chyffuriau y mae modd mynd yn gaeth iddynt;
(b) Y rheini a gafwyd yn euog o ymddygiad anghyfreithlon neu amhriodol gan unrhyw awdurdod cyfreithiol arall;
(c) Y rheini ym maes gwleidyddiaeth [e.e. pleidiau gwleidyddol];
(d) Y rheini yr ystyrir bod eu gwasanaethau neu eu cynhyrchion yn niweidiol i iechyd, neu yr ystyrir eu bod yn gwrthdaro â pholisïau'r Cyngor a'i gyfrifoldebau i'r gymuned.

## 9. Mathau Derbyniol o Nawdd

**9.1** Gall y Cyngor gydnabod ei noddwyr mewn sawl ffordd. Caiff i ba raddau y cydnabyddir hynny ei benderfynu o ran lefel a natur y nawdd, ac mae'n amodol ar gytundeb ysgrifenedig sy'n nodi'r buddion a'r costau yn benodol.

**9.2** Dylai'r broses o gydnabod noddwyr fod yn chwaethus a'n bwyllog a rhaid iddi beidio â chreu sefyllfaoedd a allai beri embaras neu feirniadaeth i'r Cyngor. Gallai cydnabyddiaeth o'r fath gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

(a) arwyddion priodol;
(b) datganiad i'r wasg sy'n cydnabod rôl a chyfraniad gwahoddiadau'r noddwr i swyddogaethau dethol y Cyngor a allai gynnwys lletygarwch, seddi ffafriol, seremonïau gwobrwyo;
(c) cynnwys enw a logo'r noddwr ar gyhoeddiadau'r Cyngor ac unrhyw gyhoeddiadau allanol eraill;
(d) hawliau enwi i ddigwyddiad, adeilad ac ati am gyfnod y nawdd;
(e) gwobr neu dlws ag enw'r noddwr arno ac a gyflwynir yn gyhoeddus;
(f) gwerthu nwyddau mewn mannau gwerthu dethol;
(g) arddangosiadau yn adeiladau/cyfleusterau'r Cyngor yn amodol ar gymeradwyaeth ym mhob achos unigol, mewn arddangosiadau disymud neu ar gyfer gweithgaredd y noddwr pan nad oes ei angen ar y Cyngor;
(f) cyfle i enw'r a/neu logo'r noddwr gael ei hyrwyddo drwy hysbysebu cyffredinol priodol gan y Cyngor;
(i) ymgyrch hysbysebu argraffedig flynyddol i ddiolch i'r prif noddwyr.

## 10. Cytundebau

**10.1** Caiff ffurflen gymeradwy'r Cyngor ar Gytundeb Nawdd ei defnyddio ym mhob sefyllfa lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod amgylchiadau lle bydd angen ei fath ei hun o gytundeb ar y noddwr. Er gwaethaf hyn, bydd angen cytundeb ysgrifenedig ar bob cytundeb nawdd sy'n cynnwys amodau'r contract sy'n nodi'n glir:

- (a) y buddion, gan gynnwys buddion economaidd, i'r Cyngor a'r noddwr a natur y buddion e.e. hawliau enwi;
- (c) unrhyw fuddion personol sydd ar gael i gyflogeion y noddwr a'u perthnasau;
- (d) y math neu fathau o gydnabyddiaeth am nawdd a fydd ar gael;
- (e) cwmpas y defnyddiau y gall y noddwr ei gwneud o'r trefniant nawdd;
- (f) telerau'r nawdd ac unrhyw amodau o ran adnewyddu;
- (g) canlyniadau newid a all ddigwydd dros amser e.e. newid yn y berthynas, polisïau newydd, cenadaethau neu amcanion corfforaethol newydd;
- (h) gofynion o ran atebolrwydd ariannol;
- (i) indemniad gan y noddwr yn erbyn pob atebolrwydd o ran anafiadau personol a chostau colli neu ddifrodi, hawliadau a threuliau waeth sut y'u hachoswyd o ganlyniad i unrhyw esgeulustod ar ran y noddwr;
- (j) darpariaeth ar gyfer terfynu neu atal y cytundeb.

**10.2** Rhaid i'r cytundeb gynnwys datganiad y bydd swyddogaethau'r Cyngor yn dal i gael eu cyflawni'n llawn ac yn ddiduedd, boed trefniant nawdd cyfredol ai peidio.

**10.3** Rhaid i'r cytundeb gynnwys datganiad yn nodi y bydd unrhyw ymgais i ddylanwadu ar swyddogaethau rheoleiddiol y Cyngor yn arwain at adolygu a/neu derfynu'r cytundeb nawdd yn awtomatig.

## 11. Cofrestr Gyhoeddus

**11.1** Caiff yr holl Gytundebau Nawdd eu rhestru ar gofrestr nawdd y gall y cyhoedd ei gweld.

## 12. Cymeradwyo Cytundebau

**12.1** Y Prif Swyddog neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol fydd yn cymeradwyo pob cynnig nawdd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol.

**12.2** Rhaid cyfeirio Cytundebau Nawdd i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol i'w hadolygu cyn eu llofnodi.

**12.3** Argymhellir i'r holl noddwyr posibl gael eu cyfeirio at y polisi hwn.

## 13. Mynediad i'r Polisi

**13.1** Caiff y Polisi Nawdd ei gynnwys yng nghofrestr polisïau'r Cyngor a'i roi ar wefan y Cyngor.

## 14. Atebolrwydd Cyhoeddus/Cyflwyno Adroddiadau

**14.1** Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i egwyddorion llywodraeth agored ac atebolrwydd cyhoeddus, tryloywder a hygyrchedd. I gyflawni’r amcanion hyn, mae’r Cyngor yn cytuno i’r canlynol:

(a) Rhaid i Gytundebau Nawdd fod ar ffurf cytundeb ysgrifenedig;
(b) Bod Polisi Nawdd y Cyngor ar gael i’r cyhoedd ac wedi’i restru ar wefan y Cyngor;
(c) Mae’r Cyngor yn cadw cofrestr gyhoeddus o gytundebau nawdd.

## 15. Cysylltiadau Marchnata a Chyfryngau

**15.1** Rhaid hysbysu tîm Cysylltiadau Cyhoeddus y Cyngor o’r holl gytundebau nawdd y bydd y Cyngor yn eu llunio o’r dechrau.

**15.2** Oni chytunir fel arall, timau Cyfathrebu’r Cyngor fydd yn cyflawni’r holl gysylltiadau â’r cyfryngau ar gyfer pob cytundeb nawdd.

**15.3** Rhaid i’r holl wybodaeth i’r cyfryngau a gaiff ei llunio gan y noddwr gael ei chymeradwyo gan dimau Cyfathrebu’r Cyngor cyn eu rhyddhau.

**15.4** Ni chaiff logos na brandiau eraill y noddwr amharu â hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor na gwrthdaro â hi.

**15.5** Rhaid i dimau Cyfathrebu’r Cyngor gymeradwyo’r defnydd o hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor ar unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd gan y noddwr.

## 16. Ymwadiad

**16.1** Nid yw derbyn hysbysebu neu nawdd yn golygu bod y Cyngor yn cymeradwyo cynhyrchion na gwasanaethau’r noddwr.

## 17. Gwrthdaro Buddiannau

**17.1** Rhaid i swyddogion ac aelodau’r Cyngor ddatgan ymlaen llaw a oes ganddynt fuddiannau personol, ymglymiad neu wrthdaro buddiannau posibl ag unrhyw noddwr posibl. Os bydd gwrthdaro buddiannau posibl, ni chaiff y swyddog neu’r aelod hwnnw fod yn rhan o’r broses o ystyried rhoi nawdd i’r sefydliad penodol hwnnw.

## 18. Adolygu’r Polisi

**18.1** Caiff y polisi hwn ei adolygu’n barhaus a chaiff ei adolygu bob blwyddyn.

**ATODIAD A**

## TELERAU PWYSIG

### Noddi digwyddiadau

Mae hyn yn cynnwys talu ffi i ddeiliad yr hawliau yn gyfnewid am fuddion hyrwyddo a brandio mewn digwyddiad (e.e. digwyddiad chwaraeon neu gynhadledd).

### Trwyddedu

Mae trwyddedu yn drefniant dan gontract rhwng cwmni trydydd parti (y trwyddedai) ac adran o'r Cyngor (y trwyddedwr), sy'n caniatáu i'r trwyddedai werthu cynhyrchion a gymeradwywyd sydd â brand y trwyddedwr arnynt yn y farchnad fanwerthu.

### Nawdd yn y cyfryngau

Gall noddi gweithgareddau mewn cyfryngau penodol fod yn ffordd dda o sicrhau bod negeseuon yn cyrraedd eich cynulleidfa darged. Bydd gan y gynulleidfa gysylltiad â'r cyfrwng dewis ac yn tueddu i ymddiried yn yr arddull a ddefnyddir y cylchgrawn, papur newydd, gwefan, gorsaf radio neu raglen deledu.

### Rhaglenni a ariennir gan hysbysebwyr neu gynnwys â brand

Mae rhaglen a ariennir gan hysbysebwyr (RhAH) yn rhaglen deledu neu radio sydd wedi cael arian gan hysbysebwr i'w datblygu neu ei chynhyrchu. O ran RhAH ar y teledu, mae'r hysbysebwr fel arfer yn ariannu cynhyrchu'r rhaglen yn gyfnewid am gredydau nawdd, marchnata oddi ar yr awyr, hawliau a pherchenogaeth cynnwys. Ni all yr hysbysebwr ddylanwadu ar gynnwys na threfn amserlenni mewn unrhyw ffordd sy'n effeithio ar annibyniaeth olygyddol y darlledwr. Gellir ei ddisgrifio fel modd i hysbysebwr gael perthynas agosach â'r cynnyrch rhaglennu y tu hwnt i weithgareddau cyfryngau traddodiadol. Gall y broses gomisiynu i RhAHau fod yn hirfaith, ac nid oes sicrwydd y bydd y syniad ar gyfer y rhaglen yn cael ei ddarlledu. Yr arfer gorau o ran datblygu RhAHau cost-effeithiol yw gweithio gydag asiantaeth nawdd arbenigol sydd â pherthynas ag adrannau masnachol a chomisiynu darlledwr.

### Ymgyrchoedd hyrwyddo ar y radio

Mae'r rhain yn ffurf benodol ar gynnwys â brand. Maent yn rhyngweithiol, yn seiliedig ar gystadleuaeth ac fel arfer yn fyrdymor. Gosodir ymgyrchoedd hyrwyddo radio mewn rhaglenni, ac felly fe'u hystyrir yn ffactor golygyddol ar yr orsaf yn hytrach nag yn weithgaredd masnachol neu hysbysebu. Bydd gorsafoedd yn hyrwyddo'r rhain mewn rhaglenni radio eraill gan ddefnyddio darllediadau byw a darnau a recordiwyd ymlaen llaw. Byddant hefyd yn cynorthwyo'r ymgyrch hyrwyddo drwy weithgareddau oddi ar y radio e.e. ar wefannau'r orsaf a thrwy dimau marchnata stryd. Llywodraethir RhAHau ac ymgyrchoedd hyrwyddo ar y radio gan God Darlledu Ofcom.

### Noddi darlledu

Hwn yw pan fydd hysbysebwr yn prynu *ident* â brand o amgylch rhaglen deledu neu radio. Mae'n galluogi adrannau'r Cyngor i gyfleu negeseuon ymgyrchoedd drwy gysylltiad â rhaglen deledu neu radio benodol neu gasgliad o raglenni.

Gall *ident* noddwr clir gyfleu neges glir oddi mewn i egwyliau hysbysebu llawn a thargedu negeseuon i gynulleidfaoedd penodol. Fel y rheoleiddiwyd gan Ofcom, ni all identau noddwyr gynnwys negeseuon hysbysebu na galw ar neb i wneud rhywbeth yn uniongyrchol. Fodd bynnag gallant gynnwys rhif ffôn neu we-gyfeiriad heb gyfarwyddo'r gwyliwr i alw'r rhif neu fynd i'r wefan.

Mesurir effeithiolrwydd noddi darlledu drwy ffigurau gwylwyr neu wrandawyr y rhaglen yn ogystal â ffigurau brig o ran nifer y galwadau ffôn neu ymweliadau â gwefan yn ystod y cyfnod ar ôl y rhaglen (yn ogystal â thros gyfnod yr ymgyrch).

**Nawdd digidol**

Wrth i fynediad y cyhoedd at ddeunydd digidol gynyddu, felly hefyd a wna'r cyfleoedd i hysbysebwyr ymgysylltu â'u cynulleidfaoedd targed ar draws amrywiaeth o lwyfannau digidol. Gall nawdd ar-lein naill ai fod ym mhob rhan o'r wefan neu fod yn gyfyngedig i feysydd cynnwys penodol ar wefan. Gellir monitro'r gwerthusiad drwy gyfrif nifer y defnyddwyr unigol a hefyd gan bobl sydd naill ai'n rhyngweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r cyfle nawdd. Ar hyn o bryd ni reoleiddir y parth digidol, ond ceidw'r Cyngor lygad barcud ar ddatblygiadau o ran hyn, a gall wneud sylwadau yn ôl y gofyn. Nid yw nawdd digidol wedi'i gyfyngu i noddi tudalennau gwefannau yn unig, ac yn gynyddol bydd cyfleoedd i noddi pethau fel podlediadau a chynnwys IPTV (Teledu Protocol Rhyngrwyd) ar gael.

**Nawdd yn y wasg**

Mae nawdd yn y wasg yn hysbysebu print sydd yn cyd-fynd â'r math o gyhoeddiad y mae ynddo. Gall hyd fod ar ffurf hysbys-erthyglau, ategiadau unigol neu erthyglau golygyddol a noddir. Mae nawdd yn y wasg yn ffordd dda o gyfleu neges gymhleth mewn ffordd ddifyr, ddiddorol ac arloesol. Gall y cyfryngau dargedu'n benodol iawn (e.e. gwasg ranbarthol neu gyfryngau ethnig) neu gall gyrraedd cynulleidfa eang iawn (drwy gyhoeddiadau cenedlaethol). Mae unrhyw destun yn hawdd ei fonitro, gan fod modd codio hysbyseb olygyddol a dadansoddi'r canlyniadau. Mae canllawiau Cymdeithas y Cyhoeddwyr Cyfnodolion yn nodi bod yn rhaid i nawdd yn y wasg nodi'n glir y daw o ffynhonnell a dalodd.

**Lleoli cynnyrch**

Lleoli cynnyrch yng nghyd-destun y Cyngor yw cynnwys ymgyrch mewn cyfryngau ffuglennol neu ffeithiol e.e. poster diogelwch tan ar wal caffi mewn opera sebon teledu mawr. Gall hyn fod yn anodd ei gyflawni ac mae'n cynnwys trafodaethau hirfaith â chwmnïau cynhyrchu a darlledwyr. Ofcom sy'n ei reoleiddio.